Gwers: Iechyd Rhyw

Amcanion Dysgu:

- Archwilio data a dadansoddi gwybodaeth.
- Deall sut y caiff heintiau a drosglwyddir yn rhywiol eu trosglwyddo, y symptomau, a'r dull o'u trin.
- Ymchwilio ar gyfer gwybodaeth arbenigol.
- Deall goblygiadau cymdeithasol/iechyd dewisiadau personol.

I ddechrau: Dangoswch 6 sleid PowerPoint o HPA. Trafodwch beth mae'r data/graffiau yn ei ddweud. Gall y disgyblion wneud nodiadau cryno. Dylai'r disgyblion gwblhau'r daflen 'Faint ydych chi'n ei gofio?'	**Disgyblion** Astudio'r sleidiau a chofio'r pwyntiau pwysig. Cwblhau taflen gwestiynau.	**Athro** Dangos sleidiau i'r disgyblion (yn rhyngweithiol, gan ddefnyddio taflunydd neu fersiwn wedi'i argraffu). Amlygu'r nodweddion a helpu'r disgyblion i ddadansoddi'r wybodaeth (gweler y nodiadau).
Prif dasg: Dylai'r disgyblion ddefnyddio/ymchwilio i wybodaeth sydd ar gael ar glamydia, ac ateb cwestiynau ar y daflen 'Ymchwilio i Glamydia'.	**Disgyblion** Darllen a deall y wybodaeth sydd ar gael. Defnyddio ffynonellau eraill i gael gwybodaeth. Ateb y daflen gwestiynau.	**Athro** Sicrhau bod amrywiaeth o ffynonellau ar Glamydia ar gael i'r disgyblion (gweler y nodiadau). Rhoi taflen holi/ateb i'r disgyblion neu roi'r cwestiynau ar daflunydd.
Sesiwn lawn: Pam bod nifer yr achosion o glamydia wedi cynyddu? Edrychwch ar daflen y sesiwn lawn (neu rhowch y daflen ar y taflunydd). Beth mae'r graffiau yn ei ddweud wrthych? A ydynt yn helpu i esbonio'r cynnydd? Lluniwch gynllun 3 phwynt ar gyfer lleihau nifer yr achosion.	**Disgyblion** Archwilio a dadansoddi'r graffiau. Ateb cwestiynau a rhoi syniadau ar gyfer y cynllun 3 phwynt.	**Athro** Cynorthwyo disgyblion wrth iddynt ddadansoddi graffiau a llunio eu cynllun 3 phwynt. Defnyddio'r cysylltiadau i helpu i roi mwy o wybodaeth.

Canlyniadau:
Bydd pob disgybl yn: Gwylio sioe sleidiau, rhoi cynnig ar gwestiynau, dadansoddi rhywfaint ar y graffiau/data.
Bydd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn: Deall ac yn dadansoddi'r data a roddir iddynt, ateb cwestiynau, rhoi syniadau ar gyfer cynllun 3 phwynt.
Bydd rhai disgyblion yn: Rhoi rhesymau manwl dros eu hatebion, rhoi cynnig ar waith ymestyn.

Adnoddau:
Sleidiau PowerPoint, y daflen 'Faint ydych chi'n ei gofio?', y daflen 'Ymchwilio i Clamydia', taflen y sesiwn lawn, cyswllt â'r Rhyngrwyd, adnoddau eraill (gweler y cysylltiadau), taflunydd.

Rheolaeth yn yr Ystafell Ddosbarth:
Addysgu'r dosbarth cyfan, Gwaith unigol ar daflenni.

Geiriau allweddol: Iechyd Rhywiol, Haint, Clamydia, Data, Graffiau, Dull Atal Cenhedlu, Partneriaid Rhywiol.	**Cysylltiadau Strategaeth CA3/CC/Cysylltiadau Traws-Gwricwlaidd:** AIBCh 2 a/b/e/g a 4 a/d/f/g MA4 Trin Data NNS (tudalennau 248-276)

Gwybodaeth Flaenorol:
Dadansoddi graffiau.

Asesiad o'r Dysgu:
Trafodaeth ddosbarth, Atebion i'r taflenni cwestiynau.

Gweithgaredd Ymestyn:
Llwytho data oddi ar safle HPA. Llunio graff yn cymharu eich rhanbarth â'r ffigurau Cenedlaethol, ar gyfer nifer o achosion. Dangos gwahaniaethau rhwng y rhywiau.

Syniadau Gwaith Cartref:
Ymchwilio'r data/gwybodaeth ar gyfer haint gwahanol a drosglwyddir yn rhywiol.

Nodiadau
Gweithgaredd cychwynnol:
Atgynhyrchwyd y sleidiau PowerPoint gyda chaniatâd yr HPA; ewch i http://www.hpa.org.uk/infections/topics_az/hiv_and_sti/sti-chlamydia/chlamydia.htm i gael mwy o fanylion.
Prif weithgaredd:
Ewch i www.brook.org.uk (0800 185023). Maent yn darparu gwybodaeth/taflenni.
Ffoniwch 0800 567123 i gael llyfryn y GIG.
Ewch i http://www.bbc.co.uk/health/sex//stis_chlam.shtml
Sesiwn lawn:
I gael mwy o wybodaeth ewch i:
http://www.statistics.gov.uk/CCI/nugget.asp?ID=412
http://www.statistics.gov.uk/CCI/nugget.asp?ID=326
http://www.statistics.gov.uk/CCI/nugget.asp?ID=411
NODER: gellir newid y gweithgareddau hyn fel gweithgareddau cychwynnol, sesiynau llawn ac ati. Defnyddiwch beth sy'n briodol ar gyfer eich dosbarth yn eich barn chi.

Eich nodiadau/cwestiynau:

Nodiadau ar y wers/gwerthusiad